Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Drwy e-bost

26 Mehefin 2018

Annwyl Dai,

**Blaenraglen waith: meysydd o ddiddordeb a rennir**

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith yn ddiweddar. Cytunodd yr Aelodau ar nifer o flaenoriaethau, y mae dwy ohonynt yn gorgyffwrdd â phortffolio'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon:

- Y Strategaeth Gordewdra Genedlaethol a'i heffaith ar blant
- Iechyd Meddwl Dysgwr Ôl-16

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu trafod y Strategaeth Gordewdra Genedlaethol a'i heffaith ar blant pan gaiff ei chyhoeddi. Rwyf ar ddeall y disgwylir y Strategaeth yn nhymor yr hydref, a bod eich Pwyllgor chi hefyd wedi nodi diddordeb i'w thrafod. O ystyried ein diddordeb a rennir yn y maes hwn, byddaf yn sicrhau bod Clerc y Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Glerc y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn rheolaidd ac yn trafod cyfleoedd ymarferol i gydweithio, os yw'n briodol.

O gofio ymrwymiadau presennol y Pwyllgor, mae'n annhebygol y bydd gwaith ar iechyd meddwl dysgwr ôl-16 yn dechrau cyn gwanwyn/haf 2019. Eto, gofynnaf i'r Clerc roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565